YR YMOFYNNYDD

. . Cylchgrawn Misol . .

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygyddd—Y Parch. D. JACOB DAVIES, B.A.

CYFROL LIII. GORFFENAF 1953 RHIF 7

Nodiadau'r Golygydd.

CREFYDD FEL CHWEDL WIR

Pe mentrwn lunio gair o feirniadaeth ar Undodiaeth Fodern, hyn a ddywedwn—peidiodd a bod yn grefydd y meddwl mentrus a'r dyfalu diwyd. Crefydd a'i golwg tua'r gorffennol ydyw bellach, Crefydd y Cofio. Nid clwy newydd mo hwn eithr y mae'n glwy a gydiodd ers dros hanner canrif, er mai yn ein hoes ni y gwelir canlyniadau'r malltod ar ei waethaf. Nid ein clwy arbennig ni mohono chwaith, eithr y mae yn glwy cenhedlaeth gyfan, ond oblegid ein nodweddion arbennig y mae ei nôd yn hacrach ar ein corff nac ar amryw o'r cyrff crefyddol eraill. Credasom ein bod ar briffordd datblygiad am i ni flingo crefydd y teidiau bilyn wrth bilyn ar drywydd yr hyn a gredem oedd yn grai byw y grefydd bur. Da mentrodd y tadau ar ben y llwybr ond am eu plant, nid oes ganddynt eu ffydd hwy ac aeth ein dwylo yn rhy drwsgl i drin y byw bach a'n llygaid yn rhy bŵl i'w ganfod. Ymarferasom â dull y teidiau ond heb eu gweledigaeth.

A ddaeth yr amser i ni ail-feddwl? Onid drych o drueni yw'r gynulleidfa a gyferfydd o Sul i Sul i addoli'r nesaf peth i ddim? Nid angerdd ein ffydd a'n ceidw'n ffyddlon, nid brwdfrydedd ein barn a'n ceidw'n bobl-bron-barchus. Fe ddeil rhaff hyd at ei rhaflau olaf a felly ninnau—rhaflau a'n deil. Y mae bedd yn y fynwent, y mae sedd lle'r eisteddai mam, y mae plentyn i'w feddyddio ac y mae dyn i farw. Hwn yw'r gwir plaen na ellir ei gelu mwyach, hon yw'r ffaith syfrdanol o'i darganfod, ffaith na ellir ei gwadu. Amhur ein calon ac ni welwn Dduw. A raid eto wisgo crefydd a philynnod a genfydd ein llygaid ac a sylwedd a ddeffry gyffyrddiad ein llaw?

Rhyw feddyliau felly a ddaeth imi pan ddarllenais ddarlith agoriadol yr Athro J. R. Jones M.A., D.Phil. fel athro athroniaeth yng Ngholeg

y Brifysgol, Abertawe. Teitl y ddarlith yw "*Religion as true myth*," a gwn nad boddhaol o bell yw'r cyfeithiad a osodais uchod. Y mae'r Athro yn cyfeirio at y ffaith fod nifer o ystyron i'r gair *myth* ac nid yw'r gair chwedl yn ei ystyr gyffredin yn gwneud cyfiawnder â'r ystyr y mae a fynno'r awdur ag ef. Gŵr ifanc yw'r Dr. Jones ac yn ddiamau y mae'n un o feddylwyr mwyaf trwyadl ein dyddiau. Cefais y fraint o eistedd wrth draed y Gamaliel hwn am rai blynyddoedd yn Aberystwyth a gwn yn dda am ei allu i fanylu hyd at y blewyn olaf. Nid ar unwaith y gellir dadansoddi ei resymeg gymhleth, glos ond os oes rhywun ac arno awydd meddwl o'r newydd ac o ddifri, gwahoddaf ef i geisio copi o'r ddarlith oddi wrth Gofestrydd y Brifysgol yn Abertawe. Cofiaf glywed a darllen ar adeg traddodi'r ddarlith fis Ionawr fod rhai ffwndamentalwyr wedi codi peth cynnwrf o'i phlegid ar y pryd. Y mae'n ddiau mae deall brawddegau unigol yn unig a wnaethant a didoli'r rheiny o'u cyswllt ac oddi wrth y thema ganolog. Oherwydd diffyg ymarfer â thrin testunau athronyddol mewn Cymraeg ofnaf mai digon clogyrnog a gwallus a fydd fy ymgais i osod crynodeb ger eich bron. Eto'i gyd, y mae'r ddarlith yma yn ddigwyddiad o gymaint pwys fel na ellir osgoi'r ddyletswydd.

Y mae Dr. Jones yn agor drwy ddweud ei bod yn mynd yn anos bob dydd i bobl ddeallus dderbyn y dosbarth o ddatganiadau a adwaenir gennym fel athrawiaethau crefydd. Aethom i amau ai *gwir* ydynt a hynny o dan ddylanwad y dull gwyddonol sydd mor boblogaidd heddiw. Amheuir gwerth y dull hwn at hyn o waith ac y mae'r Dr. yn awgrymu nad ceisio profi eu *gwirionedd* yn y dull yma a ddylasem wneuthur eithr gofyn yn hytrach a oes *arwyddocad* i'r datganiadau. Y mae'n amlwg fod datganiadau crefyddol am Dduw a Thragwyddoldeb yn bosibl, datganiadau na ellir eu profi na'u gwrthod yn y modd y profir ac y gwrthodir datganiadau am bethau sylweddol tir a daear. Gall fod ystyr i frawddeg grefyddol sydd y tu allan i faes yr ymchwil cwbl wyddonol.

Clywsom lawer am ffilmiau tri dimensiwn y dyddiau diwethaf yma ac yn fyr hyn a olygir ganddynt. Lle na welid dim namyn hyd a lled yn yr hen luniau, heddiw y mae'n bosibl dangos dyfnder ar y llen. O wisgo sbectol arbennig gwelir swmp a sylwedd y llun fel petai ac effaith hyn oll yw gwneud y pictiwr yn beth realistig i'r eithaf. Yn awr, hon yw dadl Dr. Jones : deil bod gan ddyn drydydd mesur neu ddimensiwn, *dimensiwn dyfnder personoliaeth* a deil na all gwyddoniaeth dreiddio hyd ato. Yma yn rhywle y mae maes arbennig crefydd. Mewn gwirionedd felly, testun priodol i hyn o lith fyddai, *Gwthiwch i'r dwfn* ! Ni all gwyddor mor bwysig â seicoleg ddweud popeth am bersonoliaeth dyn a dyna paham y mae'r seicolegwyr wedi chwarae cymaint â brig deimladol dyn yn unig. Gall dyn feddwl amdano'i hun fel gwrthrych a ddaliwyd ynghanol digwyddiadau a dyletswyddau sydd o'i gwmpas ond gall

hefyd feddwl am y *myfi* mewnol ar lefel unicach a dyfnach, lefel lle mae holl fesurau bywyd yn dod i'r golwg. Yma mae byd dirgelwch, y byd y mae crefydd yn chwilio amdano. Paham yr holl awydd am greu ; paham yr holl anesmwythyd cydwybod a'i gyrr i gredu nad yw yn gwneud yr hyn oll a allai ? Dyna'r gwahaniaeth rhwng dyn a rhywbeth cwbl faterol ; y mae'n sylweddoli bodolaeth y mewnfodolaeth yma a dyna ystyr bod yn berson. Yn y mewnfodolaeth yma y mae llygad ffynnon Rhyddid, y rhyddid hwnnw sydd mor amlwg yng ngwead hanes dyn trwy'r oesoedd.

A dyma'r gosodiad pwysig sy'n dilyn y dadansoddiad, sef bod y meddwl modern wedi ei ddiarddel oddi wrth y crai byw am nad oes ganddo lwybr hyffordd tuag ato. Clywn y dyheu amdano o bell, clywn yr awydd am ddychwelyd i'n treftadaeth ond afradlonwyd ein grym i gyfeiriadau gwyddonol ac fe'n gadawyd yn wŷr dryslyd ein ffyrdd. Sut y mae llunio llwybr unwaith eto, sut y mae dod i ymwybod â'r dyfnder ? Un ffordd y sydd, medd yr Athro, ac fe'i gelwir yn *myth*, neu'r chwedlonol, os mynnwch. Nid myth yn yr ystyr gyffredin o ddamcanu cyntefig a chyn-wyddonol a olygir ond myth fel modd i roddi goleuni ar y byd yn ei gyfanrwydd neu yn ei holl fesurau a phob dimensiwn ohono. Y mae meddwl yn y dull mythig hwn yn ymgyrraedd hyd at y dirgelwch eithaf ac fe gais roddi ystyr a phatrwm i'r hyn na ddeallwn ac na welwn. Wrth ddeall y gair myth y cyntaf peth i'w gofio yw na ddisgwylir i ni gredu ei fod i'w dderbyn fel gwir llythrennol ac yn yr ystyr honno y gofyn y Dr. Jones i ni ddeall datganiadau crefyddol. Nid pethau i'w profi'n wir neu'n gelwydd mohonynt ond pethau sy'n llawn ystyr oherwydd eu arwyddocâd i ddyn ar ei ffordd i chwilio'r dyfnder. Y mae'r myth yn cyfanu bywyd, yn bwrw pont i wlad y pellter ac yn cadarnhau dyn yn ei ffydd ei fod yn byw mewn byd sydd ag ystyr iddo.

Nid oedd y dyn cyntefig yn meddwl am storïau arwyr ei chwedloniaeth fel storïau *gwir* ac ni thybiai mai celwydd mohonynt chwaith. Carai eu hadrodd oblegid fod ystyr iddo yn eu cynnwys. Dangosent iddo bosibiliadau calonogol mewn byd gelyniaethus ac yn yr arwr gwelai ddarlun ohono ef ei hun yn gorchfygu y nerthoedd a'i bygythiai.

Nid yw'r Dr. Jones yn sôn am hyn, ond yn bersonol credaf fod darlundai ein oes ni yn gwneud yr un gwaith yn union i ddyn yn ei ddryswch ag a wneid gynt gan y storïau chwedlonol i'r dyn cyntefig. Daw'r eiddil allan o gynteddau hud y pictiwrs a rhwysg arwr yn ei gerdded a phan fo anawsterau'n llethol onid oes nodded a dihangfa yn neuaddau'r lledrith ' o swn y boen sy'n y byd.' Y mae hyn oll yn gefn i ddadansoddiad yr Athro mai'r unig lwybr sy'n arwain at ddiogelwch y bersonoliaeth yw llwybr y myth. Ymwrthododd crefydd ag ef i raddau helaeth a'r canlyniad yw fod yr aelodaeth yn yr ardaloedd poblog wedi symud bron yn glwt

o'r tŷ cwrdd i'r darlundy neu at y set deledu sydd yn tyfu i fod yn allor bwysicach fyth.

Yn yr ystyr yma y mae'r awdur am weld Cristnogaeth fel myth, ond myth sy'n cyrraedd yn ddyfnach na'r un arall y gŵyr amdano. Y mae chwedl Cristnogaeth yn gosod ger ein bron nifer o simbolau ac yn eu plith y mae'r *Dyn Dwyfol*. Y mae'n ofalus i ddweud ei fod yn cydnabod prif ffeithiau hanes Iesu o Nasareth fel ffeithiau hanesyddol—nid chwedl mo *stori ddynol* Iesu, ond fe osodir yr hanes ar draws cefndir o ryfeddodau lle ceir genedigaethau goruwchnaturiol a gwyrthiau—chwedlau yn yr ystyr gyntefig yw'r rheiny wrth sgwrs ; myn mai da o beth fyddai pe gellid eu symud gan ddi-chwedloneiddio'r Testament. Ond wedi dweud hyn ychwanega mai cam i'r iawn gyfeiriad fyddai ail-sefydlu yr hyn a gredai'r Iesu ac a gredai'r Eglwys a luniodd amdano. Yn eu plith y mae'n enwi'r gred am Iesu fel Mab Duw a gododd o farw. Nid datganiadau hanesyddol mohonynt o gwbl ond nid yw hynny'n dweud nad oes iddynt arwyddocâd ac ystyr i'r hwn a'i cred. Felly'n union gyda'r Dyn Dwyfol, nid y profi a'r gwrthbrofi sydd o bwys ond y ffaith fod Iesu dogma yn simbol o berffeithrwydd moesol y gellir ei sylweddoli yn y bywyd dynol. Hyn a'i gwnaiff yn berthnasol (*relevant*) i angen dyn fel bod moesol. Y mae'r myth yma'n dangos dyn o gig a gwaed fel nyni yn goresgyn anawsterau hyd at berffeithrwydd ac yn ymsefydlu yn nhiriogaeth y perffeithrwydd hwnnw. Y mae gobaith i ni yn awr, y mae ffordd i ninnau fyned "*i'r fan yr aeth y rhag flaenor drosom ni, sef Iesu*". Dyma ateb y myth i'r dyfnder sydd ynom, y dyfnder yn galw ar ddyfnder. Hwn yw'r hedyn sy'n cynnwys holl egni a nerth y bywyd gwell.

Datgysylltwyd ein hoes oddi wrth nerth ac ystyr y simbolau yma ; nid ydynt yn fyw i ni bellach ac ni wyddom y ffordd at ffynnon cymeriad yn nyfnder ein bod. Gwrthodwyd athrawiaethau am na welwyd gwirionedd yn yr ystyr wyddonol yn eu gosodiadau arwynebol ond y mae'n bryd i ni ail-chwilio am eu cynnwys cudd, mytholegol . . . y dyfnder y mae dyn yn dyheu amdano.

Un gair cyn terfynu. Er nad yw'r Dr. Jones yn Undodwr yn yr ystyr gul a roddir i'r gair yn rhy aml o lawer, y mae ganddo bob cydymdeimlad a'n delfrydau gorau a mynnodd bregethu yn y Capel Bach yn Aberystwyth .y Sul olaf cyn iddo ymadael a'r dref honno. Daeth y Doethor hwn yn wylaidd hefyd i wrando ar ei ddisgybl di-nod fwy nac unwaith. Hyn oll a ddywedaf er mwyn ceisio darbwyllo awdurdodau ein Cyrddau Chwarterol mai da fyddai estyn gwahoddiad i'r Athro naill ai i draddodi darlith neu i bregethu yn ein plith. Y mae'n ŵr prysur ar y pryd ond byddai'n werth aros am dair blynedd o gofio'r wledd a gaem. Mynegaf yr un awgrym i awdurdodau Coleg Caerfyrddin . . . llunier i gall hanner gair.

Chwedl Ynys Ninhw

gan y Golygydd.

A'r gŵr doeth o'r dwyrain a ddaeth ataf gan ddywedyd, "Ha, fy machgen, a glywaist ti hanes ynys Ninhw?"

A minnau a atebais gan ddywedyd, "Na O ŵr doeth, ni chlywais mo'r hanes, na sôn amdano."

"Tyred felly," medd yntau, "a mi a adroddaf yr hanes wrthyt. Gwrandawed dy glustiau a myfyried dy galon a thristwch a llawenydd a fydd iti . . .

"Ynys fechan ar graig yng nghanol y môr oedd Ninhw a llawen oedd eu phobl yn ei gogoniant a'i harddwch. Yno yr oedd gwŷr wrth gerdd yn canu a dynion da yn llefaru geiriau doeth wrth ei gilydd. Mynych yr ymwelais â'r ynys fechan yn nyddiau ei dedwyddwch a chael o haelioni a hyfrydwch cymdeithas y brodorion. A theithwyr o bellafoedd y ddaear a fynegent ei hedmygedd o ffrwythlonder ei thir a rhadlonder ei gwareiddiad.

"Ond Cenfigen a ddaeth i'r ynys fechan un dydd megis y daw cwmwl i guddio harddwch prynhawn o haf. Ni ŵyr neb hyd y dydd heddiw o ba le y daeth oblegid hynny yw dull Cenfigen, ond hyn a wyddom, ef a ddaeth a hynny megis dan liw nos. Rhwng gŵr a gŵr yr ymyrrodd i ddechrau a'r ddau ŵr a fynnodd ei ysbryd i'w calon gan fagu ei chwedlau ofer ac amlhau ei ddichellion rhwng teulu a theulu. Ac, O fy machgen, gyflymed â'r wennol ar ei haden yr ehedodd y drygioni o dŷ i dŷ ac o aelwyd i aelwyd.

"Un gŵr a drigai yn nhueddau gogleddol yr ynys a'r llall a drigai yn y dehau a chylch o gyfeillion a ymgasglodd am y naill fel y llall. A dull a safle'r ynys oedd hwn—afon a darddai ym mynyddoedd y Gogledd a'i llif a gerddai i gyfeiriad y De lle'r oedd dolydd eang i'w dyfrhau a'i ffrwythloni ganddi. Yn y Gogledd y trigai chwarelwyr a seiri maen a gwŷr wrth gelf a fedrai lunio harddwch o'r meini a thai annedd o'r cerrig, ac yn y De amaethwyr a gwinllanwyr a ofalai am drin y dolydd a'r coed.

"A chymryd cyngor a wnaeth gwŷr y Gogledd gan ddywedyd, fe ataliwn lif yr afon ac fe godwn wrthglawdd yn groes i'r dyffryn fel na redo'r dyfroedd i ffrwythloni tiroedd y De. A hyn a wnaethant gan droi ffrydiau'r dyfroedd i redeg dros y dibyn i'r môr. Ac o edrych ar y mur yn rhannu'r ynys yn ddwy, y gŵr a roes le i Genfigen yn ei galon a ddywedodd gan chwerthin ei chwerthin gwag, ' Wele y mae dwy ynys bellach Ni a Nhw,' a'r dydd hwnnw y lluniwyd y ddau air yma yn nhafodiaith yr ynys.

"A gwŷr y Deheubarth hefyd yn yr un modd gan edrych ar y gwahanfur a ddywedasant, ' Wele, y mae dwy ynys bellach, Ni a

Nhw,' a'r naill ni wyddai am ymadrodd y llall canys ni ellid siarad dros y mur. ' A ni,' meddent, ' ni roddwn iddy' Nhw o ffrwyth ein gwinllanoedd gan na roddant hwy o ddyfroedd yr afon i Ni. A chwe mis a rhagor a aeth heibio a daeth yr haf, ond ni lifai'r dyfroedd fel cynt i ffrwythloni dolydd eang y De, a'r coedydd a grinodd a'r holl flodau arnynt a syrthiodd. A dyddiau gofid a ddaeth ar y brodorion y naill du i'r mur fel y llall. Yn y Gogledd cronnai'r dyforedd yn llyn ond yr ystordai a aeth yn wag a bwyd a ffrwyth y tir nid oedd iddynt mwyach. Ni ddaeth ymwelwyr mwyach a'r llongau a bellhaodd rhag ymyrryd yn nhir Cenfigen. Ac mewn trueni ac angen y trigodd y bobl Ni a Nhw."

Ac o dristwch calon y gofynnais innau i'r gŵr doeth, "Ai dyma ddiwedd dy chwedl?" "Na," meddai yntau, "O lawenydd fy nghalon mynegaf iti pa rhyw ddiwedd sydd iddi . . .

Wedi treulio a dioddef hyd at newyn, un dydd pan oedd lesg pawb, aeth bachgennyn o dir y De i chwarae ar y mur rhwng Ni a Nhw ac wrth chwarae fe a lithrodd gan gwympo i'r dyfroedd. A gŵr o dir y Gogledd a'i gwelodd a disgynnodd angel Cariad yn ddiarwybod arno, ac ef a rwygodd drwy'r dyfroedd gan achub y bychan o'r dyfnder. A mam a thad a theulu'r bychan a ruthrodd dros y mur i'w geisio a phan welsant ef yn dianc o grafanc y dŵr ym mreichiau'r gŵr o'r Gogledd, llawenhau a wnaethant gyda llawenydd mawr. A chan ddiolch iddo, yn ebrwydd dyma'r fam yn gwahodd y gŵr a'i deulu i ymuno gyda hwy mewn gwledd a gŵyl. Ac eraill a ganlynasant dros y mur o ganfod nad anodd hynny o orchwyl, a bu tramwy mawr drosto y dwthwn hwnnw.

Ac yn y wledd, tad y bachgennyn a lefarodd gan ddywedyd, "Yr ydym Ni yn ddiolchgar iddy' Nhw am y weithred hon . . ." Ond cyn iddo orffen llefaru wele ŵr o'r Gogledd yn ateb . . . "Pa ryw gamsyniad yw hwn? Ti a soniaist amdanom Ni fel Nhw, a chwithau a adwaenir fel Nhw gennym Ni tydi a elwaist yn Ni! Rhyfedd dy ymadrodd; pa ryw synnyr sydd iddo?"

A thad y bachgennyn a atebodd gan ddywedyd, "Hwn yw'r synnwyr a welsom oblegid dy weithred yn achub fy mab gan chwalu'r mur a oedd rhyngom. Gwelsom bellach mai lledrith yw'r ymadrodd a'n gwahanodd ac mai ym myd y dychymyg yn unig y trig y bobl a elwir Nhw, ac o hyn allan galwer pawb, pwy bynnag y bo a lle bynnag y trigo wrth yr un enw, ' Ni ' ".

Ar hyn, yr holl dyrfa a welodd ddoethineb ei ymadrodd ac mewn gorfoledd bloeddiasant, " Ein ynys Ni yw hon a pha beth a gawn wneuthur erddi?"

"Ni a ddinystrwiwn y gwahanfur," meddai un.

"Ni a gawn yr afon eto i redeg a ffrwythloni'r tir," meddai arall.

"Ni a godwn dai ac y gloddiwn lechi fel y byddo hardd ein byw a chadarn ein llety . . . Ni a chwiliwn Genfigen a'i ymlid o'r ynys," meddai eraill ynghyd.

Ac am y trydydd tro a'r tro olaf newidiwyd enw'r ynys ar y graig yn y môr a hi a elwir o hyn allan o'r gogledd i'r de . . . ' Ynys Ni.' Daeth y gwŷr wrth gerdd eto i ganu a phob llawenydd a hyfrydwch sydd i'w phobl. Rhennir y ffrwythau teg a llawenheir yn llif yr afon. Diddig hefyd a dedwydd ydyw pawb a ymwelo â'i thir,"

A minnau gan wrando a wrandewais gan ddysgu wrth chwedl dda y gŵr doeth.

Tom Lewis y Glo



(Y llun trwy garedigrwydd Y Merthyr Express)

Y mae pawb ar y Cefn yn adnabod Tom Lewis y Glo, y gŵr cadarn, cydnerth sy'n canu'r organ yn y bore yn yr Hen Dŷ Cwrdd. Os cawsoch hanner awr yn ei gwmni gwyddoch hefyd paham ei gelwir wrth yr enw uchod, enw a ddyry ichwi syniad o elfen a thuedd ei berchen. Nid gŵr cyffredin mo Tom Lewis ond gŵr a feddianwyd gan syniad ac a lynodd wrtho er pob gwrthwynebiad. Fel pawb ohonom a dreuliodd ein dyddiau ymysg glowyr gwelodd warth y ' gweithiau ' ar ei waethaf. Yn Aberdâr, Merthyr a Chefn y mae cannoedd o wŷr cymharol ifanc na chânt noswaith o gwsg mewn gwely oherwydd mogfa'r llwch a aeth i'w ysgyfaint. Sefais ar fryn gerllaw Aberdâr y dydd o'r blaen yng nghwmni hen

golier ac wrth ddangos pwll a lefel i mi yr un oedd y stori bron bob tro . . ." 'Rwy'n cofio ucan o ddynon a dau grotyn yn câl i boddi fanna . . . deuddeg fan acw . . . y tanad mawr fan draw . . .", ac yn y blaen. Dyna'r stori a ninnau yn cwyno am bris y glo : hon yw'r stori o hyd a daw'r ambiwlans sydyn ar ei dro i ryw stryd bron bob dydd . . . *pris y glo.* Beth yw ateb yr awdurdodau ? . . . Rhagor o lo a chyn lleied byth ag sy bosibl o welliannau ; ateb Tom Lewis yw "gwell defnydd o'r glo a roes Duw at ein gwasanaeth a chymaint fyth a ellir o welliannau yn amodau gweithio'r glowr". Ac am iddo gynnig yr ateb hwn aeth ati i weithio ac i ddyfeisio i'w ddodi mewn grym. Dangosodd gynllun a allai dynnu'r nwy gwerthfawr allan o'r glo, lluniodd yn ddiweddar ddril dri-phig a all dynnu'r glo allan o wythïen fach (gwêl uchod) ond ei anwybyddu a wneir. Pam ? A gredwch am funud fod dyn sy wedi gweithio oes gyda'r glo mor dwp â chynnig cynllun sy'n gwbl anymarferol ? Y ffaith yw fod y mawrion a gormod o ddiddordeb ganddynt yn yr arian a rhy fach yng nghyflwr y gweithiwr. Fe gostiai arian i newid y dull o gloddio a defnyddio glo ac onid haws yw dal at yr hen drefn a defnyddio'r hen beiriannau. Y mae ein pocedi yn cwyno eisoes am bris y glo a rhywbryd trwy waith gwŷr fel Tom Lewis daw ein cydwybod i gwyno am bris y glo i ŵr yr ysgyfaint llwythog a'r graith lâs.

D. J. D.

MENYN FFRES.

Fe ddaeth y ffres o'r enwyn
Ag hen atgofion lu
Am ddiwrnod corddi gartref
Dan iorwg talcen tŷ.
Mi glywswn lwnc yr enwyn,
Cawn dracht o'r fuddai'n frith
'R ôl troi a throi wrth elfen
Ar 'nail ar dde a chwith.
Mae ynddo risial Talis
A meillion cae Penlon,
Ac awel iach y Moelfre—
Daw hiraeth dim ond sôn.
Mi wela'r da yn rhodio
Yn rhester tua'r clôs,
A Carlo wrth eu sodlau—
I'w godro tua'r nos.
A minnau 'mhell o gartref
'Rwy'n teimlo'n ddigon chwith ;
O na chawn gorddi eto
A gweld y gwartheg blith.

Nance.

Dyddiadur Gwilym Marles

GORFFENNAF 1850.

1. Llun. Codi 6. Ymolchi, cribo, etc., wrth fy nghel o 6—8 heno. Yna yn y Cyfarfod Misol yn Nanthir, casglwyd yno 2s. 4d. at y genhadaeth—adref 11 . . .

2. Maw. 5.45. Nid yw fy meddwl yn segur, a'm ymgais yw ei roi ar dda—11. . .

3. Mer. 5 cyn 6. . . . Mae llawer o waith yn aros yma er ein gwaethaf.

5. Gw. 5. bore mwyn . . . Ewythr mynd i ffair Wyl Ifan—finnau i Urddiad Capel Isaac . . . dechr. Ds. Llanbedr. Preg. Stephens Sirhowy . . . holi y gwein. ifanc gan Jones, Crugybar. Urddweddi gan Jones Ffaldybrenin . . .

8. Llun. Codi 6. darll. . . .—Gofynnais heno—' Ewythr gai fynd i'r ysgol eto ? ' Dywedodd na allai ef onite y cawswn ac na wnaethai neb arall ddim—gai fynd i'r ysgol rywbryd serch hynny—meddai rhywbeth sydd ynwyf . . . 11.

10. . . . O am deithio a hiraethu am dymor o waith llaw . . . 10.

11. . . . nid wyf yn iach . . . yfais ddysglaid o de crafanc yr arth—da at lyngyr.

15. Gwnaeth fellt a tharanau . . .

16. 5.25 . . . pontbren Felin ymaith meddynt . . . pobol yn cwyro y ffyrdd. Dylem fod yn ddiolchgar iawn am ein Dyogelhad yn nghanol y fath beryglon. . . . 10.

17. 5½. 12. Gwernogle—cwrdd ond neb i gadw cwrdd yno o sylw . . . ffair fach yr haf wedi mynd ar bobl—trueni hefyd . . .

19. 5½. Wrth fy nghel. 8—9 . . . Ai wrth yr esgid yr wyf i fod ? Nage, meddai rhywbeth yn y fynwes. Gwyn fyd na ddoi'r dydd y cawn lanau'r cwyr a ffwrdd i'r ysgol—amser braf. . . . 11.

21. Sab. 6½ . . . Es lawr i'r Llidiadnenog erbyn ½ awr wedi dau gyda D. Jones, Blaenholiw—haner dydd. preg. ar I Thes. 5.22—y tro cyntaf i fi gadw cwrdd fy hunan—lled dda ar y cyfan. . . . 11.

23. Maw. 6. . . . meeting rhent heddiw . . .

25. Iau . . . O am fod yn ddiwyd i lafurio am wybodaeth a pheidio gadael i ddim fy nigalonni. . . . 11.

27. . . . Cael y Diwygiwr a'r Tywysydd a "Drych Prophwydolaeth" . . . 11.

30. 15. cyn 6 . . . O am fod yn ddiwyd bob amser i gasglu gwybodaeth.

31. 6½ . . . cysgu rhy hir—ragorodd hir gysgwr (meddir) mewn dim 'rioed . . . Gofynais heno eto am fynd i'r ysgol—'does dim argoel—ni fwriadant roi ond ¼ neu 2—ond caf ragor . . . 11.

(*I Barhau*).

HEN GARDEN BOST.

Derbyniais lythyr y dydd o'r blaen oddi wrth Mrs. J. R. Evans, Cefn Coed yn cynnwys carden bost a ddanfonwyd gan y diweddar Barch. R. J. Jones, Aberdâr at y Parch. E. W. Priestley Evans a fu farw'n ddiweddar. Dyddiad y garden yw Chwef. 1918 ac arni mae Gweddi ar gân o eiddo Sion Llewelyn o Gefn Coed ynghyd â nodiad byr yn Saesneg arni gan R.J.J. Dyma gopi o'r cwbl :

" I thought you might like to have ' The Prayer ' which he wrote for another. It is not in his book, but I think it is very good. Its literary quality is better than most in the book. By the way, have you his poems ? "

GWEDDI

(Yn nhafodiaith Brycheiniog.)

O Arglwydd Dduw Gorucha
Rho help dy law,
A dwg fi draw,
Drwy ddyffryn cysgod anga,
Heb ormod brwcs na braw :
Mae'r dyffryn yn anwastad,
A'r dyfnder mawr,
Yn suddo'i lawr,
A finna'n ŵr mor hinad,
A 'ngwad i'n oeri 'nawr ;
O'm nerth a 'ngrym
Nid allai ddim,
I gamo 'mlan rho gymorth im',
Drwy ddanfon dy genadon,
Sy'n arfer dod
Eriod, Eriod,
I gynnal y rhai gweinion,
Fo'n union dan y nod :
O garchar tlawd
A gwyniau'r cnawd,
Duw dwg fi i'r fro
At Grist fy mrawd ;
Ac yno mi gaf ddigon
O'r gwledda'n rhad
Sy'n nhŷ fy Nhad,
A Un o'm hen gyfeillion
I'm arwain drwy y wlad.

Sion Llewelyn."

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.

(*Parhad*)

Gan Y Parch. T. O. Williams, M.A.

Rheolau Iolo.

Y mae cystal codi cwr y llen, a gweld pwy a feddyliodd gyntaf am ffurfio'r gymdeithas. Yn y Llyfrgell Genedlaethol y mae llawysgrifau Iolo Morganwg, yr Edward Williams a oedd yn y cyfeistedd cyntaf, ac yng nghyfrol 58 ceir rheolau'r gymdeithas. Ar dudalen 159 ceir copi o "Reolau a Threfniadau Cymdeithas Dwyfundodiaid Deheubarth Cymru a gyttunwyd arnynt gan Henuriaid y Gymdeithas yn eu cyfarfod Cyffredinol yn y Gellionnen ym Morganwg ar ddydd Gwener yr wythfed o Fis Hydref yn y flwyddyn 1802", a gwelwch mai yng Ngellionnen oedd y cyfarfod gerllaw Castell Nedd.

Ar dudalen 278 y ceir copi eto o'r rheolau &c. Ni cheir yma ond 41 o danysgrifwyr, ac nid 49 y rhestr brintiedig, a gesyd Iolo enwau'r pwyllgor yn llawn megis Josiah Rees Gelligron &c. Ar dudalennau 326-338 ceir Rheolau Cymdeithas Dwyfundodwyr Deheubarth. Ar dudalennau 426-428 Gelligron Rules, Rheolau Cymdeithas Undodiaid &c. Ar dudalennau 434-441 Cymdeithas Undodaidd Deheubarth (gyda Dwyf wedi'i ysgrifennu uwchben Undodiaid) ac ar dudalen 458 y teitl yn unig : Rules and Arrangements of the Society of Unitarians &c.

Ni ellir tynnu ond un casgliad mai Iolo Morganwg oedd awdur y Rheolau a'r Trefniadau, ac y ceir yma'r Rheolau yn cael eu newid a'u diwygio neu ni buasai yma o leiaf saith braslun ohonynt. Yr oedd hynyna yn 1802 ac ar dudalen 203 ceir "Hints for a new Modification of the Rules of the South Wales Unitarian Society 1816. Yn y *Monthly Repository* 1811 (tdd. 188-9) ceir hanes cyfarfod o'r Gymdeithas wedi ei ysgrifennu dan D.D(*avis*).

"Nov. 17 1810 (D. Davis Neath),—ac mewn nodiad dywedir,—"The Theo-Unit. Society founded in 1802 was probably his (D.D.) creation, though he gives credit to Iolo Morganwg for first suggesting it."

Y mae'n werth bwrw golwg dros restr y Tanysgrifwyr, a chadw ar gôf sylw Dr. R. T. Jenkins yn *Nhrafodion Cymdeithas Hanes y Bedyddwyr 1930* : "Er iddo (Dr. W. Richards) yn 1802 ymuno a Chymdeithas Dwyfundodiaid Deheudir Cymru (nid ymddengys hyd yn oed i sylwedydd go gyfeillgar fod honno'n nemor mwy na chlwb ffrindiau Iolo Morganwg a Reesiaid y Gelligron)."

Diddorol gweld a yw'r holl wir gan Dr. Jenkins. Rhaid cofio mai dydd y pethau bychain ydoedd yr adeg honno yn hanes Undodiaeth.

Digon tebig mai Iolo Morganwg, Josiah Rees a David Davis Castell Nedd a symudodd i ffurfio Cymdeithas y Dwyf Undodiaid,

a Iolo a Dr. William Owen Pughe yn gofalu am yr orgraph. Gwell gennyf na chredu mai 'clwb ffrindiau Iolo a Reesiaid Gelligron' ydoedd, gredu mai nifer bach o wŷr blaengar y cynulleidfaoedd oedd yn graddol adael eu brodyr mwy ceidwadol gan gerdded rhagddynt. Ceir yn y rhestr gyntaf enwau deg o weinidogion a dau fyfyriwr yng Ngholeg Caerfyrddin. Nid oes arni enw un gweinidog yn Sir Aberteifi oherwydd nid oedd Capelygroes a Phantydefaid wedi rhoi galwad i'r Parch. John James eto. Ni chaf ychwaith ond tri lleygwr o'r sir—Timothy Davies, Cellan; Thomas Jenkins Rhydybennau, a Dafydd Shencyn Rees o Lloydjack: coffa da amdanynt.

Erbyn 1803-5 yr oedd y rhestr yn fwy niferus, a cheir dwsin o weinidogion o Gymru—Y Parchn. John Davies, Aberdâr; Thomas Davies, Cefncoed-y-cymmer; John James, Llwyngroes; Thomas Morgan, Blaengwrach; William Morris, Cryc Hywel; David Oliver, Aberdâr; David Phillip, Pantman; Ben. Phillips, St. Clears; Josiah Rees, Gelligron; Thomas Rees, hefyd; William Thomas, Llangyndeirn a Dr. Charles Lloyd, ond o Palgrave.

Gwyddom eu bod yn cynrychioli deg neu ragor o gynulleidfaoedd, ac y mae nifer go dda o leygwyr ar y rhestr. Dwg yr hen enwau adgofion hyfryd yn ôl. Dyma hwy,—Rees Davies, Lloydjack; Evan Davies Neuaddddu (?); John Davies Llandysul; Timothy Davies Cellan; David Evans Esgair; John Evan Blaenwain; Thomas Jenkins Rhydybennau; David Shencyn Rees Lloydjack: (Cystal yma roi darn o lythyr galwad Dafydd Shencyn Rees i John James; "Mae Dafydd yr Esgair, John Blaenwain, Thomas Rhydybennau a finnau yn ymrwymo i chwi am ddeugain punt y flwyddyn"): ac er mwyn gweld gwerth y bunt yr adeg honno cymerwn frawddeg arall o'r un llythyr, "Cewch yn Lloydjack ystafell a lle i gynneu tân a gwely am swllt yr wythnos, neu ynteu cewch eich bord gyda'm gwraig a minnau, eich gwely a'ch golchiad am bymtheg punt y flwyddyn.") Nid yw hynyna ond gyda llaw, ond i fynd ymlaen,—Jacob Evans, Bedlwyn; John Jones Penbryn; Thomas Jones Aberystwyth, John Lewis Llangranog; T. Morgan (Surgeon) Llanbedr; David Moses Gardengoch Aberteifi; J. Thomas Gafriwgoch; Samuel Jenkins Ystrad; David John Penlan; John James Blaenwain; David Jones Castell, Rees a Henry Jones Lloydjack. Y mae yma ddau Lloyd o Aberglasle a bum yn petruso peth gan gredu mai Aberglasne ger Pontshan ydoedd, ac yr oedd rhyw James Lloyd, ysgolfeistr yn byw yn Aberglasne rywbryd yn y bedwaredd ganrif a'r bymtheg. Y mae gennyf grap ar y mwyafrif o'r enwau hyn.

Clymu'r Cymdeithasau.

O fynd dros restr y capelau y cynhaliwyd Cyrddau'r Gymdeithas ynddynt fe welir y tair sgaen yn clymu am ei gilydd. Ar y dechrau

(1802-10) ni ddoi'r gweinidogion Arminaidd i'r cyrddau, ond doi gweinidogion y Bedyddwyr Cyffredinol Undodaidd ar fyr dro. Bob yn dipyn daw'r Arminiaid neu'r hen Undodiaid, a cheir hwy gan bwyll yn cymryd rhan. Yn 1817 yng Nghaerfyrddin pregethodd Dafis Castellhywel gyntaf yng nghyrddau'r gymdeithas, ac yn 1824 a'r cyrddau ym Mhantydefaid ceir oedfa'r hwyr yn y Llwyn. Yr oedd Aberdâr wedi cael y cyfarfodydd yn rheolaidd o 1820 ymlaen. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf yng Ngellionnen ; yn 1805 yng Nghefncoed, a dim wedyn yno am ddeugain mlynedd ; yn 1848 ceir cyrddau yng Nghiliau a Chribin a Chwmwrdu ; yn 1850 yng Nghaeronnen ; yn 1862 ym Mwlchyfadfa ; yn 1865 yn Alltyplaca ac yn Llwynrhydowen yn 1869. O graffu'n fanwl gwelir y ddwy adain yn dod at ei gilydd, a hwyrach bod apwyntio Gwilym Marles yn weinidog y Llwyn wedi cwblhau'r uniad, ond ar fyr bu yna rwyg arall rhwng Undodiaid Priestley a dilynwyr Parker a Martineau. Er mwyn dangos daliadau yr hen Undodiaid cymeraf frawddeg neu ddwy o'r hen adroddiadau am y cynhadleddau gynt, ac yr oedd yn frwd yno.

"Yr wyf i yn rhifo ymhlith y cyfryw ragfynegiadau y Proffwyd Esai am Grist" (Titus Evans) : "Os cyffesi a'th enau yr Arglwydd Iesu, a chredu yn dy galon i Dduw ei adgyfodi o feirw, cadwedig fyddi" (Owen Evans) ; "Gwyrthiau yw seiliau cadarnaf fy nghred i. Oni buasai i Iesu gyfodi o farw fab y weddw o Nain a Lazarus ac oni buasai adgyfodiad Crist ar gyffelyb wyrthiau ni buasai moesoldeb y cyfamod newydd yn ymddangos mor dderchafedig i mi ag y gwna yn awr. Ar dystiolaeth gwyrthiau, ufuddhau i orchymynion Duw sydd eisiau. Moesoldeb a gwyrthiau i mi" (John Jones Aberdâr). "Yr wyf yn dymuno cennad i ofyn a ddylai neb gyda thegwch alw ei hunan neu gael ei alw gan arall yn Gristion ac yntau yn gwadu llawer o'r hyn a wnaeth ac a ddwedodd Crist" (D. Evans, B.A., Maesymeillion) ; Nis gallaf finnau chwaith alw neb yn Gristion os yn gwadu gwyrthiau'r Testament Newydd" (Owen Evans). Ar hyd y llinellau hyn y cerddai dadleuon y Gynhadledd a'r Ymofynnydd, ac y maent yn ddiddorol gan ddangos y llwybr at Undodiaeth, a llawer yn cerdded â chamre petrus.

Diddorol hefyd i chwi, wŷr Morgannwg, fel ol-nodiad yw eich adgofio o'ch Cymdeithas eich hunain. Flynyddoedd yn ôl bellach, cefais gasgliad o draethodynnau wedi eu rhwymo gyda'i gilydd gan y diweddar Edward Thomas, Blaenmene, ac yn eu plith "Rheolau Cymdeithas Undodaidd Gwent a Morganwg ac eraill, yr hon a ymgorpholodd Awst y 26ain 1846, a dywedir

"Mae y Cwrdd Blynyddol Cyntaf i gael ei gadw yn Aberdâr, y 24ain o Ragfyr 1846. Y Parchedig John Edward Jones, o Benybont ar Ogwr, i bregethu."

Y Cyfeistedd hyd hynny ydynt :

Y Parch. J. E. Jones, Penybont.

Y Parch. Owen Evans, Cefn.
Y Parch. J. Jones, Aberdâr.
W. Howells, Yswain, Merthyr.
Mr. Richard Llewelyn, Aberdâr.
[Argraphwyd gan David Jones, Merthyr].

Nid oes set gyflawn o'r YMOFYNNYDD gennyf fel na allaf ddilyn hynt y Gymdeithas bob cam. Y mae hanes y cyfarfodydd gennyf o 1802 dan 1875 ac y mae'r manion yr yr YMOFYNNYDD o 1875 hyd 1900, ond nid oedd gennyf amser i wneud ymchwil drwyadl.

COFNODION DIWEDDAR.

Y mae cofnodion y Gymdeithas o Hydref 1899 hyd heddiw wrth fy ochr, ond a dweyd y gwir noeth, moel iawn ydynt. Rhyw fanion a geir yma, a hyd y gwn i ni thrafodwyd cwestiynnau mawr y dydd ond anaml, ond protestiwyd yn erbyn Mesur Addysg Balfour, ac yn erbyn unrhyw fesur addysg oni adewir allan ohono Addysg Gref yddol. Y mae'n rhaid i minnau gredu yn Nemesis, a minnau'n gadeirydd Pwyllgor Addysg Gref yddol y Sir. Cefnogwyd Cyflafareddiad, a Heddwch, a dywedwyd gair dros y Gwrthwynebwr Cydwybodol, a hyd yn oed Senedd i Gymru, ond rywsut y mae atal dweyd wedi bod ar y Gymdeithas, ac ni chwythodd ei chorn yn hyglyw ar gwestiynnau llosg y dydd. Rhyw ddilyn o hirbell y mae ac nid arwain. Na chreder na phasiwyd yma ddigon o benderfyniadau, ond fel y mwyafrif o bwyllgorau *pious resolutions* oeddent, penderfyniadau papurf ac nid penderfyniadau i'w rhoi mewn grym. Ni rof ond engraifft neu ddwy. Pasiwyd fod pob eglwys heb weinidog i roi gwybod i'r gymdeithas ar unwaith er mwyn ystyried y mater. Hyd y gwn, ni chafodd y Gymdeithas gyfleu erioed. Ni allwn lai na chwerthin wrth ddarllen penderfyniad nad oedd neb i gael ei ethol i gynrychioli'r gymdeithas yng nghyfarfodydd y Gymdeithas Gyffredinol am ragor na dwy flynedd yn olynol, a meddyliwn a oedd ysgrifenyddion y Gymdeithas yn darllen eu cofnodion eu hunain.

Y mae'n berigl i'r Gymdeithas fod yn ddim ond Cyrddau Pregethu. Y mae'n ddydd du ar Gref ydd, ac onid yw'r Gymdeithas yn mynd i ddihuno fe wel gau drws llawer capel. Fe allai wneud llawer ond nid yn y ffordd y mae'n gweithio. Y mae eisiau deuparth o ysbryd yr hen deidiau a'r hen famau arnom er mwyn ein tanio a sêl a brwdfrydedd o blaid Cref ydd Rydd, ac os goddef air o gyngor ac anogaeth oddiwrth rebel na ŵyr a ydyw'n aelod ohoni ai peidio dyma fe—fy ngair olaf i—

Deffro ! Gwisg dy nerth, Seion !
Gwisg wisgoedd dy ogoniant,

a hynny *heddiw* cyn yr elo'n rhy ddiweddar.

Marwgofion.

Ar y 29 o Ebrill, ar ôl cystudd byr, bu farw DAVID JONES, Castellhywel Arms (Tafarn Bach), ac yntau heb fod ond 53. Bregus a fu ei iechyd ers rhai blynyddau. Gŵr hoffus ydoedd, a thystiodd y dorf fawr, a orlanwodd y capel ddydd ei angladd, i'r parch oedd iddo gan rai o bell ac agos. Perthynai i deulu a fu mewn cyswllt â'r Bwlch am genedlaethau. Yr oedd Sarnicol hefyd yn berthynas iddo. Cydymdeimlir yn fawr â'i weddw a'i ddwy ferch. Bu'r angladd ym Mwlch y Fadfa ar yr 2 o Fai, a gwasanaethwyd gan y Parchn. W. Jarman, Maenygroes ; Christmas Williams, Brynrhiwgaled ; W. M. Jenkins, Talgarreg ; A. J. Martin ; W. Davies, Llanddewibrefi a D. M. Jones, Llandysul.

Bu THOMAS JONES, Pantdderwen, Llanwnen farw ar y 16eg o Fai wedi cyrraedd yr oedran teg o 85. Daliodd gysylltiad hir â Chapel-y-Groes. Yr oedd yn weithiwr caled, cyson a diwyd, ac yr oedd graen ar ei waith. Bu ef a'i ddiweddar briod fyw i weld eu plant yn mynd o'u blaen o un i un, ond nis surwyd hwy gan eu profiadau chwerw. Hebryngwyd ei gorff i Gapel y Groes ar yr 20ed o Fai, yr angladd yn anghyhoedd a'r Parch. A. J. Martin yn gwasanaethu.

Bu farw hen aelod arall o Gapel y Groes, sef Mrs. LETITIA THOMAS, yn Neuaddlydan, Cribyn ar yr 2 o Fehefin, hithau wedi cyrraedd ei 82 oed. Perthynai i deulu a ddaliodd gysylltiad hir â Chapel y Groes, teulu Llechwedd-dderi. Adwaenid hi fel Mrs. Thomas, Unity, gan iddi fod yn byw am naw mlynedd yn y tŷ Capel, a chwithig oedd ei gweld yn gorfod ymadael oddi yno oherwydd llesgedd. Cadwodd yn "Unity" ddrws agored, ac yr oedd ganddi groeso tawel, didwyll i bawb, a charedigrwydd yn ôl ei gallu. Pan fethodd, cafodd ymgeledd parod gan ei phlant, a gwerthfawrogai hynny'n fawr. Fe gofia nifer fawr yn garedig amdani. Dygwyd ei chorff i Gapel y Groes ar y 5ed o Fehefin, a gwasanaethwyd gan y Parchn. Lewis Williams, A. J. Martin, Dewi Jones, J. Islan Jones a T. Oswald Williams.

Mai 22, yn 66 mlwydd oed, MARGARET THOMAS, priod Mr. Isaac Thomas, Torcoed-fawr, Crwbin, Cydweli ar ôl gweithred lawfeddygol arni yn Ysbyty Treforis. Yr oedd yn ferch i'r diweddar Thomas ac Eleanor Lloyd, Felindre-Uchaf, Talsarn, Dyffryn Aeron. Hyd iddi ymadael a'i hardal enedigol yr oedd yn aelod ffyddlon yn eglwys Rhydygwin fel yr oedd ei rhieni a'i brodyr a'i chwiorydd. Claddwyd ym mynwent eglwys yr Annibynwyr yn Crwbin a'r Parch. Mr. Morgan, Gweinidog a'r Parchn. Lewis Williams, Rhydygwin a G. Jones, Ficer, Moelgrove, nai i'r ymadawedig, yn gwasanaethu. Dygodd ei gweinidog dystiolaeth uchel iddi fel aelod o'r eglwys yn Crwbin, fel priod a mam dda, ac fel un oedd bob amser yn barod i wneud daioni yn yr ardal. Gadawodd briod, pedwar mab, un ferch, dwy ferch-yng-nghyfraith, pump brawd, tair chwaer a neiaint a nithoedd mewn galar dwys.

Newyddion yr Enwad

GELLIONNEN A'R GRAIG.—*Ymadawiad y Parch. R. Islwyn Pritchard, B.A., a'i sefydlu yng Nghaerhirfryn.* Nid cam bychan sydd o waelod y Gellionnen hyd at odre'r Penine ond dyna lle'r aeth cwmni o'r Graig i gyfarfodydd sefydlu'r Parch. Islwyn Pritchard yn weinidog ar eglwysi Undodaidd Chorley a Rivington ar Fehefin 6. Blin oeddym yma i ddeall am fwriad ein gweinidog i ymddeol eleni, ond cawsom ei rybudd ffurfiol cyn Mawrth a'r wybodaeth am ei alwad. Buan yr hed amser ac nid yw ams er cychwyn ei weinidogaeth yn 1949 ond megis ddoe. Eto yn yr amser byr hwn fe gyflwynodd waith da ac arhosol. Bu'n llefarwr dawnus yn y pulpud ac yn llefarwr talentog gyda'r bobl ifainc. Daeth ei gwmni drama yn fuddugwyr ddwywaith yn y cystadleuthau un aet rhwng partion Undodaidd—yn Duckinfield 1951 ac yn Bury eleni. Llynedd arweiniodd barti o ieuenctid ar ymweliad ag eglwys Undodaidd yn Offenbach a daeth yn ôl a chwmni o Almaenwyr ifainc fel ymwelwyr â'n eglwysi ninnau. Anodd gwneud crynodeb hyd yn oed o allanolion ei waith. Daeth y gerddorfa i fod yn ei amser ef a naturiol oedd iddi roddi cyngerdd neilltuol iddo ar ei ymadawiad. Yn ystod ei amser bu'n gwrando ar y cwmni cerddorol hwn yn eu gwahanol gyngherddau yng Nghartref yr Hen Bobl a mannau eraill. Gwelsom sefydlu sistem dwymo gostfawr yn ei amser a thalu'r ddyled yn llwyr. Gwnaeth waith mawr eto gyda chyhoeddi a golygu *Salmau'r Mynydd* ar gyfer dathlu can-mlwyddiant-a-hanner ail-adeiladu'r hen gapel. Derbyniodd amryw roddion fel arwyddion o'n gwerthfawrogiad diffuant o'i waith. Rhoes Urdd y Chwiorydd *handbag* i Mrs. Pritchard a chyflwynodd aelodau'r gerddorfa bwrs a swm o arian a gasglwyd ganddynt i Mr. Pritchard ynghŷd â *Dictionary of Thoughts*, rhodd neilltuol er cof am eu haelod anrhydeddus, Mr. John H. Morgan, yr hen o rganydd. Hyn yn ystod yr wythnos, ac ar y Sul canlynol pan ddaeth gwasanaethau'r blodau rhoddodd yr ysgol Sul ysgrifbin i Mr. Pritchard, ymbarel i Mrs. Pritchard a llyfr i Gwynn. Ar y nos Sadwrn wedyn, cafwyd ymgomwest fawr a'r Cynghorwr D. G. Thomas yn y gadair ac anrhydeddwyd y Gweinidog a *bureau* gostus a siec gan Gymdeithas yr Ieuanc, *briefcase* gan Urdd yr Ieuanc a châs sigarennau gan Glybiau'r Bechgyn a'r Genethod. Yn yr un modd derbyniodd Mrs. Pritchard fwrdd te a *compact* a Gwynn lamp ddarllen ac archeb llyfr. Bu rhoddion eraill, a nodwn ddau yn unig, sef Beibl Saesneg Moffat, rhodd Pwyllgor *Salmau'r Mynydd* i'r Cadeirydd a thlws gwerthfawr, rhodd ei dosbarth Ysgol Sul i'w wraig. Drannoeth ar ôl cyfarfod yr hwyr bu'r cyfarfod ffarwelio a Mr. Isaac E. Hopkin, L.G.S.M. yn y gadair ac fe gyflwynodd dysteb ariannol sylweddol i'r gweinidog ar ran yr eglwys. Siaradodd y Cynghorwr Josiah Hewitt eiriau o ddiolch dros y gynulleidfa ac hefyd cafwyd sgyrsiau o werthfawrogiad gan y Parchedigion D. Williams, Clydach a Robin Williams, Pantycrwys ac ycbwanegiadau i'r un pwrpas gan Mr. Martin John, Llywydd Cymdeithas Hen Oed, Pontardawe. Hebryngodd ysgrifennydd yr eglwys a ffrindiau hefyd y gweinidog i orsaf Abertawe i ddweud *au revoir*

gan fod yn ei bwriad ei ddilyn drennydd i Chorley. Yno, brynhawn Sadwrn bu'r gwasanaeth sefydlu. Rhoddwyd y siars i'r gweinidog gan y Parch. Dudley Richards, Bradford a'r siars i'r gynulleidfa gan y Parch. F. M. Hyde, M.A., Bury. Cyn hyn, cyd-adroddwyd yr alwad gan y ddwy gynulleidfa ar ei traed. Tybed na allem ni'r Cymry fabwysiadu'r ddefod ddemocrataidd yma Bu'r cyfarfod croesawu yn yr hwyr ac fe gafodd Mr. Pritchard groeso brwd o amryw gyfeiriad. Cafwyd gair o gyflwyniad gan Mr. Hy. Brynmor Morgan, Ysgrifennydd Cyffredinol y Gellionnen a'r Graig ac fe siaradwyd hefyd gan Mrs. Margaret Rees a Mr. Meirion Williams o'r un lle. Y Sul, gwelsom y ddau hen achos, Chorley (1725) a Rivington (1703)—yr olaf yn cynnwys clochdy bach. Ac felly yr ymadawodd y cwmni ag ef a'r teulu a dychwel unwaith eto i Drebanos. H.M.

CYMYNRODD.—Gadawodd y diweddar Mrs. Gwen Lloyd-Davies, priod y Dr. J. Lloyd-Davies, Abertawe, a chwaer y diweddar Miss Katie ones, Gellifaharen gymynrodd o £250 i Gapel Llwynrhydowen—tyst o gariad y teulu at y lle.

ENGLYNION COFFA.—Enillodd T. J. Davies, Heulfryn, Llandysul yn Eisteddfod y Bwlch am englyn i'r diweddar E. O. Jenkins. Dyma'r englyn :

Llon a didwyll Undodwr—yn ei faes
Bu'n fwy na phregethwr ;
Mewn eisiau, cymwynaswr
Hawdd ei gael, bonheddig ŵr.

Cafwyd un arall go dda gan "Whilgarn" :

Yn ei rym bu'n hir yma—yn hau'r had
Dros yr Iôn drwy'i yrfa ;
Onid oes cynhaea da
Yn ydfaes Bwlchyfadfa.

Y DIWEDDAR BARCH. JOHN EVANS.—Ar y 19 o Fai cynhaliwyd ywasanaeth daearu llwch y Parch. John Evans yng Nghapel-y-Bryn yn ymyl llwch ei wraig. Yr oedd y gwasanaeth yn anghyoedd.

ANRHYDEDD.—Ychydig ddyddiau ar ôl y coroni, derbyniodd Mr. Jenkin Samuel Davies, Plascanol, Felinfach, a ymneilltuodd o'r gwasanaeth Sifil beth amser yn ôl, fathodyn arian oddi wrth y frenhines fel cydnabyddiaeth am ei wasanaeth ffyddlon am gyfnod mor faith. Y mae'r ardal i gyd yn llawenhau yn yr anrhydedd, a dymunir blynyddoedd lawer o ymneilltuedd hapus iddo ef a Mrs. Davies.

CYMANFA FACH GWAELOD Y SIR.—Cynhaliwyd hon ar y 17 o Fai yn y Graig, Llandysul. Daeth nifer dda ynghyd o'r pedair ysgol Sul, a'r holwr oedd y Parch. Aubrey Martin. Arweiniwyd y gân gan y Parch. J. Marles Thomas a Miss Evans, Dedwyddfa oedd wrth yr organ. Yr yn hwyr bu cyfarfod dathlu hanner can mlwyddiant y Gymanfa. Cynhaliwyd y

gyntaf ar Mai 24, 1903. Siaradodd Mr. Edward Davies, Penlonwen dros ysgol y Graig ; Mr. D. O. Evans, Pontbren dros ysgol Sul Pantydefaid ; Miss Anne Davies, Pantmoch dros ysgol y Llwyn a Mr. Evan Davies, Woodland dros Bwlchyfadfa. Cafwyd diwrnod wrth fodd ein calon ac ar gais yr Ysgrifennydd canwyd emyn o waith yr hen Iolo, "Atat gwêl dy blant yn dyfod" i gofio am yr hen ffyddloniaid. Diolchwyd i'r gynulleidfa yn y Graig am ddarparu mor dda ar ein cyfer gan Mr. Evan Davies, Ffactri, Crugyreryr ac eiliwyd gan Mr. R. Davies, Llwynrhydowen.

Y GYMANFA GANU.—Dydd Llun, Mehefin 1af ymwelodd nifer fawr o ffyddloniaid ag eglwys Seion, Llandysul ac fe gafwyd Cymanfa lwyddiannus, er nad oedd y canu cystal ag y gellid disgwyl ar ôl *rehearsals* mor llewyrchus. Yr oedd gwaith y plant yn y bore yn ardderchog yn enwedig yr adroddwyr penigamp, sef Julia Rowlands, Meirion Thomas, Olwen Davies, Audrey Chaney, Ann Evans ac Ann Jones. Trefnydd y bore oedd y Parch. S. E. Bowen ac yn y prynhawn a'r hwyr, y Parch. T. O. Williams, y ddau yn dod at y gwaith ar fyr rybudd. Llywyddwyd gan y canlynol, Mrs. M. Davies-Jones, Llwyn ; Mr. J. C. Jones, Graig a Mr. Ivor Davies, Seion. Soniodd llywydd y prynhawn am absenoldeb ein Cadeirydd, Mr. Tom Davies, Dewi Villa, a chafwyd gair am hyn hefyd gan eraill. Dymunwn adferiad buan i Mr. Davies. Yr arweinydd eleni eto oedd Mr. D. T. Davies, F.R.C.O., Dowlais a Mr. Ted Morgan oedd wrth yr organ.—*Pwyllgor y Gymanfa* : Cyferfydd y Pwyllgor yng Nghapel y Bryn ar Sul 26ain o Orffennaf, pryd y disgwylir dau gynrychiolydd o bob cynulleidfa erbyn 4 o'r gloch. Hefyd bydd yr Is-Bwyllgor yn cwrdd yn Llwyn ar Sadwrn, 1af o Awst i ddewis tonau a rhaglen 1954. Danfoned pawb ei ddewisiad i'r ysgrifennydd erbyn hyn. DENZIL DAVIES.

YR YSGRIF AR IDWAL JONES YN RHIFYN MAI.—Blin gennym na ymddangosodd enw'r awdur, y Parch. Seymour Rees, uwchben yr ysgrif hyfryd hon. Cywirer y gwall.

HEN 'YMOFYNYDDION' I'W DOSBARTHU'N RHAD.—Y mae nifer fawr o ôl-rifynnau o'r YMOFYNNYDD yn cynnwys rhifynnau 1887—1951 yn llawn ym meddiant y Parch. Dannie Evans, Clifton House, Newcastle Rd., Nantwich. Y mae Mr. Evans yn fodlon rhoi'r rhain yn rhad i'r neb a'u myn. Ymofynner ag ef—ac wrth gwrs dylid fod yn barod i dalu'r gost cludo.

GAIR AT OHEBWYR.—Peidiwch digalonni os yw eich gwaith yn hir cyn ymddangos, y drwg yw fod cwt hir yn disgwyl erbyn hyn a'r lle mor brin. Parhaed amynedd !

LLUNDAIN.—Am amryw resymau methwyd a chael pregethwr o Gymro i ofalu am ddwy gynulleidfa, Cymraeg a Saesneg, Highgate. Eithr y mae'r Cymry yn awr wedi gwahodd y Parch. T. L. Jones i bregethu iddynt ac i fod yn fugail arnynt o'r Sul cyntaf ym mis Gorffennaf, a da yw deall ei fod ef wedi derbyn y gwahoddiad. Felly yr ydym ar drothwy pennod newydd yn ein hanes. A chwithau yng Nghymru wedi colli dau o'ch gweinidogion i Loegr, da gennym ni yn Lloegr gael Cymro glân yn bregethwr a rhoi cyfle iddo yntau am y tro cyntaf yn ei fywyd i fugeilio dros eglwys hollol Gymraeg. Diolchwn i amryw bregethwyr a myfyrwyr a ddaeth atom y ffyddlon dro ar ôl tro drwy'r blynyddoedd. Gobeithid na fydd i ni golli cyffyrddiad a'n gilydd.—Llongyfarchion i'r Parch. George Grieve ar ei briodas.—Cawsom y pleser yn ddiweddar o groesawu Mrs. Jackson (merch Mr. a Mrs. Davies, Wood Green) ar ei ymweliad â'r hen wlad o Cape Town.—Dymunwn amser dedwydd i'r cyfaill Edgar Evans ar ei ymweliad â Rhodesia yn ystod yr haf gyda chwmni Opera Covent Garden.—Darlledir y gwasanaeth o Highgate ar y trydydd nos Sul ym mis Awst ; Saesneg fydd y cwrdd a'r Parch. John Kielty yn pregethu.—Cydymdeimlwn yn fawr â Mrs. Dodd ar farwolaeth ei mam yn Sir Gaerfyrddin.

LLYFR NEWYDD.—Cyhoeddod Gwasg Aberystwyth lyfr nodedig gan T. Hudson Williams, *Bannau Llên Pwyl* yw'r teitl, ac fe geir adolygiad ar fyrder.

DYDD GWOBRAU YNG NGHOLEG CAERFYRDDIN.—Ar y cyntaf o Orffennaf daeth y llwythau ynghyd i'r Hen Goleg unwaith eto yn Annibynwyr, Bedyddwyr ac Undodiaid. Dechreuwyd gwaith y pwyllgorau yn y bore bach ac ym Mhwyllgor yr Undodiaid clywsom lawer o newyddion da a rhai diflas. Ymhlith y pethau da yr oedd derbyniad Caradog Evans o Fwlchyfadfa fel myfyriwr am y weinidogaeth : hyderwn y caiff bob cefnogaeth gan yr eglwysi yng nghyfnod ei baratoi. Dyma bedwar o fyfyrwyr gennym yn awr yng Nghymru a'r gobeithion yn bur uchel unwaith eto. Enillodd Mr. Watkin Davies wobr mewn Cymraeg ac fe'i llongyfarchwn yn gynnes. Ar y llaw arall drwg oedd gennym glywed fod y Parch. Simon Jones yn ymddiswyddo fel Trysorydd Cronfa'r Myfyrwyr ; gwnaeth ei waith yn drwyadl amdair blynedd ar ddeg. Gan fod ei ymddiswyddiad yn dod i rym ymhen rhyw dri mis a wnaiff yr eglwysi sydd heb gyfrannu eto wneud hynny heb oedi fel y gallo gwblhau'r cyfrifon. Y mae angen yr arian yn brydlon yn awr oblegid mae'r gofynion yn drwm.

Yn y prynhawn cafwyd araith gan y Parch. H. Stewart Carter, M.A. a'r Dr. R. O. Jones yn llywyddu. Gobeithiwn roddi rhagor o newyddion am y cyfarfodydd yn y rhifyn nesaf.

Adolygiad

Y Genhinen : Rhifyn Gwanwyn 1953, pris dau swllt. Y mae cyfnod yr anturiaeth gyda ail ddechrau cyhoeddi'r *Genhinen* drosodd a daethom unwaith eto i'w disgwyl fel y bu'r tadau yn disgwyl amdani o gwarter i gwarter. A rhaid dweud ei bod yn llanw lle gwag y *Llenor* yn benigamp. Dechreuwn y tro hwn gydag erthygl Trebor Lloyd Evans ar "John Morgan Jones", gŵr a oedd yn fawr ei gydymdeimlad â'r safbwynt Undodaidd mewn crefydd . . . digon yw tystiolaeth yr awdur yn hynny o beth wrth gymwyso englyn Hiraethog i ddisgrifio'r Prifathro dawnus—

Er nad oedd un o'r bloeddwyr,—diysgog
Y dysgai'r gwrandawyr.
Ei holl wers,—enillai wŷr
Nid a sain ond â synnwyr.

. . . a dyma frawddeg arall, "Gellid cyfrif ar ei gefnogaeth i bob mudiad a oedd a'i amcan i godi dynion ar eu traed . . ."

Ceir bywgraffiad gwerthfawr o Ddewi Emrys gan ei hen gyfaill, yr Athro Oliver Stephens ac un arall llawn hwyl gan Llwyd o'r Bryn ar Bob Tai'r Felin. Y mae Sarnicol yn mynd am dro drwy Fanc Maesymeillion gyda'i fam yn y dyddiau fu a dylai pawb o'r hen ardal weld beth sydd ganddo i ddweud. Rhifyn gwir dda yn ei bethau mawr a'i bethau bach.

J. D. Lewis a'i Feibion Cyf., Gwasg Gomer, Llandysul.